Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2013-17

Adolygu cyd-destun a pherfformiad addysg uwch ehangach yn erbyn y strategaeth ddiwethaf

Roedd ein Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2013-17, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2013 yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu helaeth, yn parhau i gyflawni strategaeth yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch (AU), Er Mwyn Ein Dyfodol[1]. Cyhoeddwyd Datganiad Polisi newydd ar gyfer Addysg Uwch[2] ym mis Mehefin 2013, yn datgan blaenoriaethau'r Gweinidog newydd ar gyfer Addysg a Sgiliau ar gyfer AU. Felly roedd angen i ni weithredu ein Strategaeth gan ystyried y pwyslais newydd.

O 2012/13 ymlaen, cyflwynwyd ffioedd hyfforddi lefel uwch newydd ym maes AU ar gyfer israddedigion llawn amser a myfyrwyr TAR. Yng Nghymru, darparwyd cefnogaeth grant ychwanegol i ffioedd hyfforddi ar gyfer myfyrwyr oedd yn byw yng Nghymru, ble bynnag roeddent yn dewis astudio, gan ddefnyddio grant rheolaidd CCAUC. Arweiniodd costau cynyddol y grant hyfforddi, gan gynnwys symud y grant o CCAUC i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2015, at ostyngiad yng nghyllid CCAUC ar gyfer AU yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu bod y sbardunau oedd ar gael i gymell sefydliadau addysg uwch (SAUau) ymreolaethol i roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar waith, sbardunau na fyddai'r farchnad yn eu cyflawni fel arall, wedi lleihau'n sylweddol. Drwy gyflwyno Deddf Addysg Uwch newydd (Cymru) 2015, ceisiwyd rhoi sylw i'r diffyg hwn drwy ddatblygu rôl CCAUC fel rheoleiddiwr AU. Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar reolaeth ariannol; ansawdd; ffioedd myfyrwyr; a mynediad i AU. Mae'r cyfnod pontio ar gyfer gweithredu'r Ddeddf, 2015-17, yn parhau. Yn ystod cyfnod y Strategaeth, mae CCAUC wedi gweithio'n agos â sefydliadau a reoleiddir, sy'n cynnwys prifysgolion a rhai sefydliadau addysg bellach (SABau), ac eraill, i sefydlu fframwaith rheoleiddio sy'n rhoi sylw i'r meysydd hynny, a hefyd datganiad ar sut byddem yn ymyrryd pe bai'r rheoliadau'n cael eu torri.

Yn ystod y cyfnod rhwng 2014 a 2016, gwahoddwyd yr Athro Syr Ian Diamond gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad annibynnol o drefniadau cyllid myfyrwyr a chyllid AU. Cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Medi 2016 ac ymatebodd Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016 ynghyd ag ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer trefniadau yn y dyfodol. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu'r cynigion terfynol[3].

Yn 2016, cymerwyd lle'r adolygiad llywodraethol bob pum mlynedd o CCAUC fel corff cyhoeddus gan yr 'Adolygiad o'r oruchwyliaeth ar addysg ôl-orfodol yng Nghymru, gyda chyfeiriad arbennig at rôl a swyddogaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn y dyfodol'. Cyhoeddwyd adroddiad yr Adolygiad, a gynhaliwyd gan yr Athro Ellen Hazelkorn, 'Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer creu system ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru' ym mis Mawrth 2016[4] ac ymatebodd Llywodraeth Cymru i argymhellion yr

[1] http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/091209forourfuturecy.pdf

[2] http://gov.wales/docs/dcells/publications/130611-statement-cy.pdf

[3] http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/reviews/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?skip=1&lang=cy

[4] http://gov.wales/docs/dcells/publications/160310-hazelkorn-report-cy.pdf

adroddiad drwy gynnig sefydlu un awdurdod strategol unigol.[5] Wrth i'r cylchlythyr hwn gael ei lunio, mae'r ymgynghoriad newydd gael ei gyhoeddi ar sefydlu Comisiwn Ymchwil ac Addysg Drydyddol newydd i ddarparu goruchwyliaeth, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Ehangu Mynediad

Ein nod oedd sicrhau cynnwys, cynnydd a llwyddiant mewn AU i bobl o bob oedran, gyda'r potensial i elwa o ddysgu a sgiliau ar lefel uwch. Roedd hyn yn ymateb i flaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol. Yn ystod cyfnod y Strategaeth, rydym wedi gweld gwelliant mewn targedau perthnasol i ehangu mynediad, sef gwell recriwtio o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf/Mynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru yng Nghymru a gwell recriwtio o ardaloedd yn y DU ble ceir cyfranogiad isel. Hefyd, yn ystod y cyfnod, mae Cymru wedi perfformio'n dda yn nangosyddion perfformiad y DU ar gyfer ehangu cyfranogiad.[6]

Yng ngoleuni'r gwell perfformiad hwn am ehangu mynediad, mae'n galonogol gweld bod cadw llawn amser wedi gwella yn ystod y cyfnod, sy'n arwydd o well llwyddiant i fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd ehangu mynediad. Comisiynwyd gwerthusiad gennym o effaith ac effeithiolrwydd gweithgareddau ehangu mynediad yng Nghymru[7] ac arweiniad i ddarparwyr.

Yn ystod cyfnod y Strategaeth, buom yn rheoli proses gymeradwyo'r cynlluniau mynediad a ffioedd. Ers 2012/13, mae buddsoddiad y cynlluniau mynediad a ffioedd mewn cyfleoedd cyfartal ac mewn hybu AU wedi cynyddu o £63,712,000 i £94,131,350 yn 2016/17.

Aethom ati i ymgynghori ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a'i gyhoeddi, ym mis Ebrill 2016, ar gyfer y cyfnod hyd at 2020. Rydym yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar berfformiad yn erbyn y Cynllun, gan gynnwys gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, fel rheoleiddiwr Llywodraeth Cymru, i gefnogi prifysgolion i gyflawni a mynd tu hwnt i ddyletswyddau cydraddoldeb.

Mae ein grant yn gostwng wedi golygu bod y cyfleoedd i ehangu AU mewn darpariaeth gynnydd a rhan amser addysg bellach wedi bod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd perthnasoedd yn datblygu rhwng SAUau a SABau drwy fasnachfraint, trefniadau grŵp, strwythurau sector deuol a thrwy gorff arloesol Sefydliad Prifysgol Blaenau'r Cymoedd. Er mai ein nod o hyd yw gweld cynnig cyfleoedd rhan amser gwell, rydym yn cydnabod y gostyngiad cyffredinol ar lefel y DU mewn recriwtio rhan amser. Parhaodd ein cyllid rhan amser yn ystod cyfnod y Strategaeth, gan gynnwys ein cefnogaeth i'r Brifysgol Agored, gan gydnabod bod cyllid myfyrwyr yn cael effaith arwyddocaol ar y darparwr rhan amser yn unig hwnnw, ac adnewyddwyd ein cynllun ildio ffioedd rhan amser i gefnogi symudedd cymdeithasol ac i ehangu mynediad, gan ystyried trefniadau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer myfyrwyr rhan amser. Mae ein targed

[5] http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/reports/review-of-the-oversight-and-regulation-of-post-compulsory-education-and-training-in-wales/?skip=1&lang=cy

[6] https://www.hesa.ac.uk/data-and-analysis/performance-indicators/widening-participation

[7] http://wiserd.ac.uk/files/4014/4257/0990/WISERD_-_Access_to_Higher_Education_F1.pdf; http://www.hefcw.ac.uk/documents/policy_areas/widening_access/Cyfarwyddyd%20ar%20gyfer%20gwerthuso%20EH%20i%20weithgareddau%20AU%20y%20CCAUC.pdf

rhan amser, sy'n cymharu twf blynyddol mewn darpariaeth ran amser â sefyllfa'r DU, wedi cael ei gyrraedd yn ystod y rhan fwyaf o flynyddoedd y Strategaeth.

Er gwaetha'r gostyngiadau cyllido, rydym wedi llwyddo i ddal ati i gefnogi gweithio rhanbarthol drwy gyfrwng Rhaglen Ymestyn yn Ehangach CCAUC. Mae'r tair partneriaeth Ymestyn yn Ehangach yng Nghymru wedi dangos gwaith partneriaeth effeithiol, gan gynnwys gyda SABau partner, ysgolion a dargedir a Chonsortia Ysgolion. Mae ffocws y Partneriaethau Ymestyn yn Ehangach wedi bod fwy a mwy ar ymgysylltu tymor hir yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a'r Mynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru, ac ar gefnogi plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i drechu tlodi a chynyddu dyheadau addysgol a sgiliau[8].

Profiad Myfyrwyr

Ein nod yn y maes hwn yw sicrhau AU a phrofiad myfyrwyr o ansawdd ragorol, yn cael eu gwella gan lais y myfyriwr. Yn ystod cyfnod y Strategaeth hon, mae canlyniadau Cymru yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) wedi methu cynyddu ar yr un raddfa â Lloegr. Mae hyn yn golygu nad yw ein targed yn y maes hwn, sy'n gymharol â'r DU, wedi'i gyrraedd. Fodd bynnag, rydym wedi gweld gwelliant mawr mewn perfformiad yn 2016 ac rydym yn disgwyl y bydd canlyniad y targed hwn yn ffafriol.

Rydym wedi parhau i weithio'n bositif gydag NUS Cymru, gan gynnwys darparu cefnogaeth i bartneriaeth Wise Cymru. Mae partneriaeth myfyrwyr wedi cael ei hadlewyrchu'n gadarn wrth roi'r polisi ar waith yn y maes hwn, gyda myfyrwyr yn cael eu cynrychioli ar ein Cyngor ac ar bwyllgorau a gweithgorau perthnasol. Hefyd rydym wedi datblygu Memorandwm o Ddealltwriaeth gydag NUS Cymru, er mwyn i ni allu cydweithredu'n fwy effeithiol. Yn ystod cyfnod y Strategaeth hon, rydym wedi adnewyddu ein gwaith ar siarteri myfyrwyr ac ar gytundebau perthynas rhwng darparwyr AU a'u myfyrwyr. Rydym wedi pennu disgwyliadau ar gyfer ymgysylltiad myfyrwyr â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd. Cyflwynwyd adolygiad hanner ffordd â'i ffocws ar fyfyrwyr fel rhan o'n trefniadau asesu ansawdd, gan adeiladu ar yr adroddiad ansawdd blynyddol gan y corff myfyrwyr.

Adnewyddwyd ein Strategaeth ar gyfer gwella dysgu ac addysgu drwy dechnoleg a chyhoeddwyd cyfres o astudiaethau achos ar y canlyniadau hyd yma. Cefnogwyd y sector yn ei waith yn datblygu Adnoddau Addysg Agored, gyda Chymru'n dod yn un o'r gwledydd cyntaf i ymgorffori'r cysyniad o 'addysg agored' yn llawn mewn strategaeth genedlaethol. I gydnabod hyn, cynhaliodd Cymru gynhadledd OER 2015.

Mae'r cyfnod hwn wedi gweld twf mewn cyllid i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a sefydlwyd yn 2012/13, ac rydym wedi gweld cynnydd yn ystod y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r perfformiad yn erbyn y targed cyfrwng Cymraeg wedi bod yn gwella ac rydym yn debygol o gyrraedd y targed 5 credyd. Daeth y gwerthusiad o'r Coleg, a gynhaliwyd gan OldBell 3 yn 2014, i'r casgliad bod cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud o ran ehangu ac ymestyn yr ystod o gyfleoedd astudio drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr yng Nghymru. Wrth i'r cylchlythyr hwn gael ei ysgrifennu, mae'r Coleg yn cael ei adolygu gan grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

[8] http://www.hefcw.ac.uk/documents/news/events/2014%20Events/Widening%20Access%20Delivering%20for%20Wales%20Cymraeg.pdf

Rydym wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Estyn a darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon i wella ansawdd a recriwtio. Fodd bynnag, mae ein gallu i ddarparu cefnogaeth gyllido, gyda dylanwad polisi cysylltiedig, wedi dirywio yn y maes hwn, o bron i £12m yn 2011/12 i oddeutu £11,000 yn 2015/16. Nid yw'r targedau recriwtio wedi cael eu cyrraedd ac rydym wedi gweld problemau'n cael eu datgan yn arolygon Estyn ar HCA yn ystod y cyfnod hwn. Rydym yn gweithio gyda'r darparwyr ac Estyn i roi sylw i hyn. Yn fwy diweddar, cytunwyd y dylai'r swyddogaeth achredu symud i'r Cyngor Gweithlu Addysg.

Yn ystod cyfnod y Strategaeth, roedd yr holl SAUau a adolygwyd yn cyrraedd trothwy'r DU ar gyfer ansawdd a safonau yn Adolygiad Sefydliadol yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd (QAA), gydag un maes yn cael canmoliaeth. Fel yn Lloegr, roedd rhaid i rai SABau wneud gwaith ychwanegol i gyflawni canlyniadau disgwyliedig, ond cafodd un SAB ganmoliaeth. Mae'r trefniadau asesu ansawdd wedi bod yn cael eu hadolygu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac rydym wedi datblygu Fframwaith Asesu Ansawdd newydd ar gyfer Cymru. Mae hwn yn cynnig hyblygrwydd i ddarparwyr AU i gyd-fynd â threfniadau yn Lloegr, gan gynnwys opsiwn i wneud cais am y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu, gan ystyried anghenion Cymru.

Rydym wedi cyfrannu'n weithredol at ddatblygiad pellach gweithgarwch rhyngwladol prifysgolion Cymru, drwy weithio ochr yn ochr â Phrifysgolion Cymru, British Council Cymru, a Llywodraeth Cymru, fel aelod o bartneriaeth Cymru Fyd-eang, gan gynnwys darparu data cynnar ar recriwtio myfyrwyr rhyngwladol. Cymerodd hyn le'r Cynllun Gweithredu Rhyngwladol ac fe'i lansiwyd yn llwyddiannus ym mis Tachwedd 2015. Mae darparwyr AU yng Nghymru wedi wynebu heriau sylweddol y farchnad fyd-eang a pholisi'r DU, sydd wedi effeithio ar recriwtio a chadw myfyrwyr a staff rhyngwladol. Felly mae'r mesur strategol ar gyfer rhyngwladoleiddio wedi amrywio o ran cynnydd yn ystod y cyfnod hwn; rhagorwyd arno yn 2013/14 ond ni chafodd ei fodloni yn ystod y rhan fwyaf o'r blynyddoedd. Fel yn yr holl feysydd polisi, rydym wedi gweithio gyda sefydliadau ar ryngwladoleiddio drwy gyfrwng ein prosesau Cynllunio Strategol ac Adolygu Risg Sefydliadol, gan ddarparu adborth os yw hynny'n berthnasol. Ar lefel y DU, rydym yn gweithio drwy gyfrwng Bwrdd Cynghori Strategol Rhyngwladol y DU a thrwy lywio The Scale and Scope of UK HE Transnational Education gyda HEGlobal. Mae ein proses Cynlluniau Mynediad a Ffioedd wedi darparu gwybodaeth benodol am drefniadau partneriaeth rhyngwladol darparwyr AU.

Sgiliau, Cyflogadwyedd a Menter

Yn ystod cyfnod y Strategaeth hon, gweithredwyd y Cytundeb ar Sgiliau a Chyflogadwyedd gennym, dan oruchwyliaeth Bwrdd Sgiliau a Chyflogadwyedd. Drwy drosglwyddo cyllid o raglen arall, roedd modd i ni gyfrannu £1m ychwanegol at dair blaenoriaeth y Cytundeb: lleoliadau gwaith/profiad gwaith; cyrsiau a gymeradwyir gan gyflogwyr; a hyfforddiant a datblygiad cyflogadwyedd wedi'i ymgorffori yn y cwricwlwm. Gofynnwyd i bob sefydliad lunio cynllun gweithredu sgiliau a chyflogadwyedd am gyfnod o ddwy flynedd, 2013/14 a 2014/15, yn seiliedig ar gynigion ar gyfer gweithgareddau neu raglenni peilot newydd ac arloesol i wella sgiliau a chyflogadwyedd ac i wella rhagolygon cyflogadwyedd graddedigion o sefydliadau Cymru. Er mwyn diogelu cyllid, roedd rhaid i fentrau fod yn gynaliadwy ac yn gydweithredol a dangos bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i amcanion ehangu mynediad.

Cafodd canlyniadau'r gwaith hwnnw eu monitro gan arwain at gynhadledd lwyddiannus yn 2015 a chyhoeddi canllaw arferion da, *Cipolwg ar Gyflogadwyedd: Sut Mae Prifysgolion Cymru'n Hogi Sgiliau Graddedigion*[9]. Mae sefydliadau wedi rhoi lle blaenllaw i weithgarwch a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ystod cyfnod y Strategaeth, daeth rhaglen GO Wales: Sgiliau ar gyfer yr Economi Wybodaeth, i ben. Roedd y rhaglen yn cael ei chyllido'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn Ardal Cydgyfeiriant Cymru a chan CCAUC drwy gyfrwng ei grant craidd yn Ardal Cystadleurwydd Cymru. Roedd y rhaglen yn cefnogi defnyddio, datblygu a chadw sgiliau, gwybodaeth a photensial lefel uchel graddedigion mewn busnesau yng Nghymru, yn enwedig busnesau bach a chanolig eu maint. Yn ystod ei hoes (mis Ionawr 2009 tan fis Rhagfyr 2014), gweithiodd y rhaglen, partneriaeth rhwng CCAUC fel y prif noddwr a phrifysgolion yng Nghymru, ac eithrio'r Brifysgol Agored yng Nghymru, gyda mwy na 7,600 o fyfyrwyr a graddedigion AU a chefnogodd fwy na 2300 o gyflogwyr. Darparodd y rhaglen fwy na 4300 o leoliadau gyda thâl i fyfyrwyr a graddedigion a mwy na 2400 o gyfleoedd profiad gwaith byr heb dâl, yn ogystal â mwy na 400 o lefydd yn yr Academi Graddedigion, cyfuniad o hyfforddiant a phrofiad gwaith i helpu graddedigion oedd yn ei chael yn anodd cael cyflogaeth ar lefel graddedigion. Darparwyd mwy na 390 o lefydd gennym yn ein Hacademi Lawrydd, sef hyfforddiant i raddedigion oedd eisiau archwilio neu gymryd eu camau cyntaf tuag at yrfa lawrydd. Hefyd, darparodd y Rhaglen 1300 o gyfleoedd cyllid cyfatebol i raddedigion sy'n cael eu cyflogi gan fusnesau bach a chanolig, i gael hyfforddiant. Mae gwerthusiad o'r rhaglen ar gael ar wefan CCAUC.[10]

O ddechrau 2014, bu CCAUC yn gweithio'n agos â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i ddatblygu rhaglen i olynu GO Wales: Sgiliau ar gyfer yr Economi Wybodaeth. Cymeradwywyd rhaglen newydd, GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith, gan WEFO i'w rhoi ar waith o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Mae'r rhaglen yn cael ei chyllido'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru ac mae'n bartneriaeth rhwng CCAUC (prif fuddiolwr) a'r holl brifysgolion yng Nghymru, gan gynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru (cyd-fuddiolwyr).

Nod y rhaglen yw gweithio'n ddwys gyda nifer bach o fyfyrwyr ifanc ar gyrsiau AU sy'n wynebu'r risg fwyaf o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant wrth adael eu cwrs AU. Nod y prosiect yw defnyddio ymyriadau profiad gwaith unigol, teilwredig fel sail ar gyfer gwella sgiliau cyflogadwyedd a nodweddion y myfyrwyr hynny sydd angen cefnogaeth cyflogadwyedd ychwanegol er mwyn gallu defnyddio eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u talent er budd economi Cymru. Mae'r rhaglen wedi cael ei chyllido am dair blynedd a'r nod yw gweithio gyda mwy na 2000 o fyfyrwyr. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.gowales.co.uk.

Cafodd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM), Astudiaethau Cymraeg ac Ieithoedd Tramor Modern eu datgan fel pynciau o bwysigrwydd ehangach yng Nghymru. Cyllidwyd rhaglenni llwybrau STEM Ymestyn yn Ehangach gennym, i gefnogi'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr ehangu mynediad sy'n ennill cymwysterau STEM. O gofio am bwysigrwydd sgiliau cyfrifiadura i economi Cymru, a'r sylw i ganlyniadau cyflogaeth cynnar i raddedigion yn y maes hwn, mae cyfrifiadura wedi bod o ddiddordeb arbennig i ni ac rydym wedi bwrw ymlaen â thrafodaethau gyda SAUau ynghylch cyflogadwyedd myfyrwyr yn y maes pwnc hwnnw. Cynhaliwyd arolwg gennym o

[9] http://www.hefcw.ac.uk/documents/policy_areas/business_and_communities/Insight%20into%20Employability%20e%20publication%20Cym.pdf

[10] http://www.hefcw.ac.uk/policy_areas/business_and_communities/go_wales_cy.aspx

Astudiaethau Cymraeg a chynhaliwyd digwyddiad i drafod atebion yr arolwg a'r cysyniad ymhellach. Ers hynny, mae'r Gymdeithas Ddysgedig wedi bwrw ymlaen ag Astudiaethau Cymraeg fel thema'r Gymdeithas. Cyllidwyd CILT Cymru gennym i barhau â rhaglen Routes Cymru i hybu dewis Ieithoedd Tramor Modern yng Nghymru. Mae Cyllid CCAUC wedi dod i ben ond rydym yn dal i gael ein cynrychioli ar grŵp llywio Routes Cymru ac mewn gwaith gyda rhanddeiliaid perthnasol i fwrw ymlaen â rhaglen Routes Cymru ar ei newydd wedd.

Rydym wedi cefnogi Cymru i sicrhau'r ymgysylltu gorau posib â chyfleoedd symudedd allanol i'w myfyrwyr a'i staff AU drwy gyfrwng ein haelodaeth o Grŵp Cynghori Gwledydd Cymru Erasmus+ a Rhwydwaith Symudedd Allanol Universities UK.

Mae perfformiad sefydliadau yng Nghymru yn arolwg Cyrchfan y Rhai sy'n Gadael Addysg Uwch, sy'n casglu data am gyrchfannau graddedigion chwe mis ar ôl iddynt raddio, wedi bod yn gadarn yn gyffredinol, yn enwedig o'i fesur yn erbyn perfformiad y DU yn gyffredinol ar gyfer graddedigion mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant neu mewn cyflogaeth *ac* addysg neu hyfforddiant, ond mae wedi gostwng yn ddiweddar. Mae'r sefyllfa o ran cyflogaeth lefel graddedigion wedi bod yn wannach yn gyffredinol, ond gyda rhai canlyniadau nodedig er hynny.

Rhagorwyd ar ein targed ar gyfer cynyddu'r datblygiad proffesiynol parhaus a gynigir gan SAUau yng Nghymru ac mae hyn wedi arwain at bron i 250,000 o ddyddiau dysgwyr a gyflwynir gan SAUau Cymru.

Arloesi ac Ymgysylltu

Hyd at 2013/14, roeddem yn darparu Cyllid Arloesi ac Ymgysylltu i bob SAUau i gefnogi gweithgareddau'n efelychu ac yn cyfarwyddo defnyddio ac ecsbloetio gwybodaeth er budd datblygiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ein cymdeithas. Nod ein Strategaeth Gorfforaethol oedd sicrhau bod cyfnewid gwybodaeth rhwng AU, cyflogwyr a'r gymuned yn ehangach, yng Nghymru ac ymhellach i ffwrdd, mor effeithiol â phosib. Roedd Strategaethau Arloesi ac Ymgysylltu a gyflwynwyd gan sefydliadau'n darparu atebolrwydd am ddefnydd o arian cyhoeddus drwy sefydlu ac adrodd yn ôl ar dargedau allweddol.

Cynhaliwyd ein ffocws ar gryfhau partneriaethau rhanbarthol neu genedlaethol drwy gyllido casgliad o brosiectau cydweithredol hyd at 2014/15. Roedd y prosiectau hyn yn ceisio cyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru o ran cydweithredu ar draws y sector AU (ee Rhaglen Gwybodaeth Strategol) neu oddi mewn i ranbarthau Cymru (ee Rhaglen Arloesi'r Ddraig, Canolfan Sgiliau CADARN). Datblygwyd rhai i ategu gweithgarwch neu ffrydiau cyllido penodol Llywodraeth Cymru (Prosiect IP-Masnacheiddio; Rhaglen Cefnogi Mentergarwch) neu i ffurfioli partneriaethau gydag awdurdodau lleol (Sbarduno Arloesi a Menter yn Rhanbarth Dinas Caerdydd).

Gweithiodd CCAUC a Llywodraeth Cymru yn strategol i weithredu "cyllid deuol", gyda chyllid CCAUC yn darparu cefnogaeth seilwaith yn sail i'r gweithgarwch prosiect penodol a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng ei Rhaglen Arbenigedd Academaidd ar gyfer Busnes (neu A4B). Tynnwyd ein ffrwd gyllido IEF yn ôl o 2013/14 ymlaen, o ganlyniad i gyflwyno Grantiau Ffioedd Israddedig Llawn Amser. Fodd bynnag, roedd ein proses Cynllunio Strategol newydd yn galluogi sefydliadau i gydymffurfio â'u hymrwymiad tymor hir i weithgarwch cyfnewid gwybodaeth a masnacheiddio, yn unol â

strategaeth arloesi Llywodraeth Cymru, *Arloesi Cymru,* ac fel amod ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Hefyd cyfrannwyd cyllid craidd gennym at y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Prifysgolion a Busnes, a sefydlwyd i gefnogi a hybu cydweithredu o safon byd rhwng prifysgolion a busnesau ledled y DU.

Cynyddodd cyfanswm yr incwm ymchwil cydweithredol o £65.3m yn 2011/12 i £74.2m yn 2015/16, fel y mesurwyd gan ddata Arolwg HE-BCI. Yn groes i'r sefyllfa mewn llefydd eraill yn y DU, nid yw dangosyddion HE-BCI yn cael eu defnyddio mwyach i sbarduno dyraniadau cyllido yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn parhau â'n hymrwymiad i fonitro parhaus ar ddata Arolwg HE-BCI. Mae prifysgolion yng Nghymru'n parhau i ddefnyddio'r data wrth feincnodi eu perfformiad ac maent yn cynnwys dangosyddion HE-BCI yn eu hadroddiadau i CCAUC. Yn fwy na hynny, mae data HE-BCI o ddiddordeb parhaus i Adran Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiannol Llywodraeth y DU, ac i Lywodraeth Cymru wrth fonitro effaith rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop, gan gynnwys rhaglen gyllido arloesedd newydd SMART Expertise. Felly rydym wedi gweithio gyda'n prifysgolion i annog dull cadarnach, gyda mwy gysondeb, o gyflwyno eu data. Rydym yn parhau i helpu Llywodraeth Cymru i fonitro darparu buddsoddiadau'r UE yng Nghymru drwy gyfrwng ein haelodaeth o Bwyllgor Monitro Rhaglen Cymru ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop (2014-2020).

Rydym wedi parhau i annog sefydliadau yn eu rôl ddiwylliannol a dinesig: mae CCAUC wedi llofnodi'r Concordat ar gyfer Ymgysylltiad y Cyhoedd ag Ymchwil ac mae'n cyllido'r Ganolfan Gydlynu Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar y cyd. Rydym wedi cyfrannu at ddatblygiad pellach gweithgarwch rhyngwladol gan brifysgolion yng Nghymru, fel aelod o bartneriaeth Cymru Fyd-eang.

Er gwaethaf diffyg cyllid seilwaith CCAUC, mae sefydliadau AU yng Nghymru'n parhau i ddangos perfformiad cadarn o ran eu partneriaethau gyda sefydliadau'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

Ymchwil

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ymchwil rhagorol a chynaliadwy sy'n cymharu'n dda yn rhyngwladol. Perfformiodd sector AU Cymru yn gadarn yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014, sef asesiad ledled y DU o ansawdd ymchwil. Cyflawnodd darged y Strategaeth Gorfforaethol o gynyddu'r gyfran o 4* a 3* o 14% a 35% yn eu trefn yn Ymarfer Asesu Ymchwil 2008. Yn Fframwaith 2014, aseswyd 30% o'r ymchwil a gyflwynwyd fel ymchwil o safon byd (4*) ac aseswyd 47% pellach fel rhagorol yn rhyngwladol (3*). Perfformiodd prifysgolion Cymru'n arbennig o dda yn elfen effaith newydd yr asesu, gyda 49% o'r deunydd a gyflwynwyd yn cael ei farnu fel deunydd 4*, y gyfran uchaf i unrhyw ran o'r DU.

Ers 2015/16, rydym wedi dyrannu ein cyllid ymchwil ar sail canlyniadau Fframwaith 2014. Adolygwyd y dull dyrannu gennym drwy gynyddu'r trothwy ansawdd/dwysedd cyfun er mwyn sicrhau bod y cyllid yn canolbwyntio ar ragoriaeth ymchwil gynaliadwy. Drwy gydol y cyfnod hwn, rhoddodd y Cyngor flaenoriaeth i gynnal cyllid ymchwil safonol ar adeg pan oedd y gyllideb AU o dan bwysau difrifol oherwydd costau'r grant ffi hyfforddi israddedig.

Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru drwy gydol y cyfnod i helpu i weithredu rhaglen Sêr Cymru, gyda'r nod o gynyddu mynediad y sector i'r Cyngor Ymchwil a

ffynonellau eraill o gyllid allanol. Mae cam cyntaf y rhaglen (Sêr Cymru I), a ddechreuodd yn 2013, yn cefnogi pedair Cadair Ymchwil a thri Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol ym meysydd Her Fawr *Gwyddoniaeth i Gymru*. Mae CCAUC yn cyfrannu tua 30% o'r cyllid. Hefyd rydym wedi cytuno i gyfrannu cyllid at yr ail gam (Sêr Cymru II), a fydd yn cefnogi Cymrodorion Ymchwil a sêr newydd. Nod buddsoddiad ychwanegol rhaglen Sêr Cymru yw rhoi sylw i'r diffyg yn nifer yr ymchwilwyr STEM yng Nghymru.

Gan gydnabod pwysigrwydd ôl-raddedigion i ddyfodol economi Cymru a llwyddiant y sylfaen ymchwil, rydym wedi parhau i gefnogi ymchwil ôl-raddedigion drwy gyfrwng ein ffrwd gyllido Ymchwil Ôl-raddedigion.

Rydym wedi gweithio gyda chyrff eraill ledled y DU i weithredu sawl Concordat i gefnogi rheolaeth effeithiol ar ymchwil perthnasol i ddatblygu gyrfa, ymgysylltu â'r cyhoedd ac integriti ymchwil. Rydym wedi cyflwyno gofyniad i sefydliadau gadarnhau cydymffurfiaeth â'r Concordat ar Integriti Ymchwil drwy Ddatganiad Sicrwydd Blynyddol CCAUC. Hefyd rydym yn gweithio gyda chyrff cyllido AU eraill i gynnwys gofynion ar gyfer cyhoeddi mynediad agored yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil nesaf.

Roedd y Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys targed ar gyfer y newid canran blynyddol yn incwm y Cyngor Ymchwil i SAUau Cymru, i ragori ar y ffigur cyfatebol ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd (ac eithrio'r triongl aur). Mae'r perfformiad yn erbyn y targed hwn wedi bod yn amrywiol ond cyrhaeddodd y sector ei darged yn 2015/16.

Fel aelod a sylfaenodd Addysg Uwch Cymru Brwsel (WHEB), rydym wedi parhau i gefnogi prifysgolion i fanteisio i'r eithaf ar eu hymwneud â chyfleoedd cyllid ymchwil ac arloesi'r UE. Rydym wedi cynghori Llywodraeth Cymru ar yr effeithiau posib ar y system AU wrth i'r DU adael yr UE ac mewn perthynas â chynlluniau pontio'r UE, gan gynnwys drwy ein haelodaeth o'r Grŵp Brexit AU a sefydlwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet.

Ad-drefnu a Chydweithredu

Roedd y Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys targed o 75% o leiaf o SAUau Cymru i fod ag incwm blynyddol sy'n fwy na chanolrif y DU, heb unrhyw sefydliad yn y chwartel isaf erbyn 2015/16. Roedd yr uno sefydliadol diweddar wedi'i gwblhau i raddau helaeth erbyn dechrau cyfnod y Strategaeth, gyda chanran y sefydliadau ag incwm o fwy na chanolrif y DU yn parhau'n 50% drwy gydol cyfnod y Strategaeth. Mae un sefydliad yn parhau yn y chwartel isaf. Rydym wedi parhau i fonitro'r uno a'r cydweithredu yn ystod cyfnod y Strategaeth hon.

Yn ystod cyfnod y Strategaeth, rydym wedi adnewyddu ein dull o weithio'n rhanbarthol, gan ystyried y tri strwythur rhanbarthol mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno yng Nghymru. Cynrychiolir darparwyr AU ym mhartneriaethau'r fargen ddinesig ac maent yn gweithio'n agos â'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol.

Llywodraethu

Roedd y Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys targed o 'dim un sefydliad addysg uwch yn sefydliad risg uchel', yn unol â phrosesau adolygu risg sefydliadol CCAUC. Mae un sefydliad wedi cael ei gategoreiddio fel un 'risg uchel' ers mis Medi 2013. Roedd y radd 'risg uchel' ar gyfer y sefydliad hwnnw o ganlyniad i broblemau gyda diffyg gallu i ymateb

i newidiadau mawr yn yr amgylchedd cyllido a galw gan fyfyrwyr. Mae CCAUC wedi gweithio'n agos gyda'r sefydliad dan sylw yn ystod cyfnod y Strategaeth. Er bod llawer o'r problemau wedi cael sylw ers hynny, wrth i'r cylchlythyr hwn gael ei ysgrifennu, mae'r sefydliad hwnnw'n parhau i fod â gradd 'risg uchel'. Mae un sefydliad pellach wedi cael ei gategoreiddio fel sefydliad 'risg uchel' yn fwy diweddar ac mae CCAUC yn parhau i weithio'n agos â'r sefydliad ar feysydd sy'n peri pryder.

Mae CCAUC yn parhau i fonitro perfformiad a rhagolygon ariannol sefydliadau; data rheoli stadau; a pherfformiad mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Hefyd rydym yn dadansoddi Dogfennau Cynllunio Strategol ac Ymgysylltu ac adroddiadau monitro blynyddol a gyflwynir gan sefydliadau. Defnyddir y wybodaeth mewn prosesau adolygu risg sefydliadol ac i roi gwybodaeth i Gyngor CCAUC am berfformiad sefydliadol.

Effeithiolrwydd Trefniadol

CCAUC yw'r corff cyhoeddus sydd rhwng prifysgolion a Llywodraeth Cymru ac mae wedi parhau i ddosbarthu adnoddau ar gyfer addysgu ac ymchwil addysg uwch a helpu i roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ar waith er lles cymdeithas yn ehangach, diwylliant Cymru a'r economi.

Fel y nodwyd yn gynharach yn ein sylwadau ar ganlyniadau'r strategaeth, mae cyfrifoldebau statudol CCAUC wedi esblygu yn ystod cyfnod y strategaeth, ar ôl cyflwyno Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Dechreuodd cyfnod pontio o ddwy flynedd ar gyfer dyletswyddau CCAUC o dan y Ddeddf newydd ym mis Medi 2015 a byddant yn cael eu gweithredu'n llawn o 1 Medi 2017 ymlaen. O ganlyniad, rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd israddedigion llawn amser yn awr, yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch, ac yn craffu ar berfformiad ariannol, llywodraethu a risg sefydliadau a reoleiddir. Yn ogystal ag addysgu ac ymchwil, rydym yn cyllido gweithgareddau eraill ym mhrifysgolion Cymru ac yn cyllido cyrsiau addysg uwch mewn rhai colegau addysg bellach.

Yn ystod cyfnod y Strategaeth, rydym wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau a reoleiddir, gan gynnwys prifysgolion, rhai sefydliadau addysg bellach ac eraill, i sefydlu fframwaith rheoleiddiol i fodloni gofynion y Ddeddf newydd, yn ogystal â datganiad o sut byddem yn ymyrryd pe bai rheoliadau'n cael eu torri. Rydym wedi parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth â sefydliadau AU ac AB, cyrff y sector AU ac AB, cyrff a gyllidir a sefydliadau eraill i gefnogi a hybu addysg uwch yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Gan fod y lefelau cyllido ar gyfer AU gan Lywodraeth Cymru wedi lleihau yn ystod cyfnod y strategaeth, rydym wedi ymgynghori'n rheolaidd â darparwyr AU ac wedi defnyddio dulliau cyllido tryloyw a chadarn i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ni, er lles y sector.

O ran ein cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth, rydym wedi cyhoeddi ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2012-13 i 2015-16 ac, yn fwy diweddar, ar gyfer 2016-2020. Mae CCAUC yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei wefan ar y cynnydd sydd wedi'i wneud gydag amcanion y Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi sylw i berfformiad y sector AU, yn ogystal â pherfformiad CCAUC. Fis Mawrth 2016, cyhoeddodd CCAUC ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016-17 a 2020, yn dilyn ymgynghoriad a

chymeradwyaeth gan y Cyngor. Yn sail i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2016-20, rydym wedi datblygu cynllun cyflawni blynyddol, sy'n galluogi i ni fod yn hyblyg yn ein hymateb i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

Mae ein cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â cheisiadau rhyddid gwybodaeth a diogelu data wedi cael eu cyflawni drwy gydol cyfnod y strategaeth drwy sicrhau bod ein polisïau a'n gweithdrefnau cysylltiedig wedi cael eu diweddaru gyda'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ac arferion gorau.

Mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym yn 2016, ond roedd y ddeddfwriaeth wedi bod yn cael ei datblygu am y tair blynedd flaenorol. Roedd CCAUC yn aelod gweithredol o'r gweithgor oedd yn gyfrifol am gyfrannu at strwythur y Ddeddf, ac roedd yn cyfarfod yn helaeth yn ystod 2014 a 2015. Roedd adroddiadau ar ddatblygu'r ddeddfwriaeth a'r camau gweithredu i gefnogi cydymffurfiaeth yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'r Cyngor rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Mawrth 2017. Cytunwyd ar gynllun gweithredu mewnol i gefnogi rhoi'r Ddeddf ar waith ym mis Ionawr 2016 ac mae hyn wedi cynnwys newidiadau i lywodraethu pwyllgorau a'r Cyngor i gynnwys yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac addasiadau wedi'u cynllunio i lywodraethu mewnol, i sicrhau bod gofynion y Ddeddf yn cael eu hadlewyrchu mewn polisïau adnoddau dynol mewnol. Hefyd cwblhaodd CCAUC adolygiad o'r broses asesu effaith ac, ar hyn o bryd, mae'n defnyddio proses newydd i gefnogi ymgorffori'r ddeddfwriaeth ymhellach. Cyhoeddwyd ein nodau llesiant a'n datganiad o lesiant erbyn 31 Mawrth 2017.

Wrth hyrwyddo ein nod o fod yn gyflogwr o ddewis, mae CCAUC yn ceisio dangos sut mae'n gwerthfawrogi ei gyflogeion ac mae'n cydnabod mai dyma ei asedau pwysicaf. Trwy wneud hynny, yn ystod cyfnod ei strategaeth gorfforaethol, mae CCAUC wedi llwyddo i gadw ei statws Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae CCAUC yn ceisio gwella drwy'r amser ac mae'n adolygu ei weithrediadau a'i swyddogaethau'n gyson er mwyn sicrhau bod cefnogaeth yn ei lle er mwyn i CCAUC a'r cyflogeion gyflawni i safon uchel. Wrth gynnal Arolygon ar Agwedd y Staff bob dwy flynedd, caiff y canlyniadau eu bwydo i gynllun gweithredu sefydliadol ac mae'r cynnydd yn erbyn camau gweithredu'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Mae CCAUC yn hybu amrywiaeth; mae'n aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb De Ddwyrain Cymru; mae'n gofrestredig fel 'Hyderus ag Anabledd' ('Tic Dwbl' gynt), ac mae'n croesawu ymgeiswyr o bob rhan o'r gymuned. Wrth recriwtio, mae CCAUC yn gweithredu gan gadw at brosesau arfer gorau ac mae'n hybu cystadleuaeth deg ac agored yn unol ag Egwyddorion Recriwtio'r Gwasanaeth Sifil. Mae ein telerau ac amodau cyflogaeth ffafriol, ac ymrwymiad ein cyflogeion, wedi arwain at gyfraddau trosiant staff isel iawn ac rydym wedi llwyddo i gadw talent a chyflawni ein hamcanion.